# Nodyn cyfarfod

| | |
|---|---|
| **Enw'r prosiect** | Awel y Môr |
| **Cyfeirnod ffeil** | EN010112 |
| **Statws** | **Terfynol** |
| **Awdur** | Yr Arolygiaeth Gynllunio |
| **Dyddiad** | 11 Mawrth 2021 |
| **Cyfarfod gydag** | Awel y Môr Offshore Wind Farm Limited |
| **Lleoliad** | Microsoft Teams |
| **Amcanion y cyfarfod** | Cyfarfod diweddaru am y prosiect |
| **Cylchrediad** | Pawb a oedd yn bresennol |

## Crynodeb o'r pwyntiau allweddol a drafodwyd a'r cyngor a roddwyd

Cynghorodd yr Arolygiaeth Gynllunio (yr Arolygiaeth) y byddai nodyn o'r cyfarfod yn cael ei wneud a'i gyhoeddi ar ei gwefan yn unol ag adran 51 Deddf Cynllunio 2008. Ni fyddai unrhyw gyngor a roddid o dan adran 51 yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol y gallai'r ymgeiswyr (neu eraill) ddibynnu arno.

Amlinellodd yr Ymgeisydd yr agenda a'r pynciau i'w trafod yn y cyfarfod.

## Ymgynghoriad

Dywedodd yr Ymgeisydd wrth yr Arolygiaeth sut y cynhaliwyd ymgysylltiad anstatudol â'r cyhoedd o 3 Tachwedd 2020 tan 13 Rhagfyr 2020. Rhannodd yr Ymgeisydd ganlyniadau'r digwyddiad â'r Arolygiaeth, a ddangosodd gefnogaeth sylweddol i'r prosiect, yn enwedig y buddion ynni gwyrdd.

Dywedodd yr Ymgeisydd wrth yr Arolygiaeth fod cam dylunio'r prosiect wedi'i rewi ar hyn o bryd, a'i fod yn bwriadu cynnal ymgynghoriad statudol a chyhoeddi Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol (PEIR). Cadarnhaodd yr Ymgeisydd ei fod yn cwblhau drafft terfynol y Datganiad Ymgynghori â'r Gymuned (SoCC) cyn ymgysylltu â'r awdurdodau lleol perthnasol. Bydd yr ymgynghoriad statudol yn dechrau ar ddiwedd mis Awst 2021, ar ôl i'r PEIR gael ei gyhoeddi.

Holodd yr Arolygiaeth p'un a oedd gan yr Ymgeisydd strategaeth ar gyfer casglu deunydd a chynllunio ar gyfer elfennau ffisegol posibl yr ymgynghoriad. Rhoddodd yr Ymgeisydd sicrwydd bod y mesurau hyn wedi cael eu hystyried a bod cynllun ar waith, pe byddai'r cyfyngiadau COVID yn cael eu llacio.
Cadarnhaodd yr Ymgeisydd y bydd yn cynnal digwyddiadau ymgynghori rhithwir, gan alluogi grwpiau anodd eu cyrraedd i gymryd rhan yn ystod camau'r ymgynghoriad. Mae'r Ymgeisydd o'r farn y dylai digwyddiadau wyneb yn wyneb fod yn ategol ac mae lleoliadau adneuo'n cael eu hystyried.

Holodd yr Arolygiaeth p'un a yw'r Ymgeisydd yn disgwyl ymatebion hwyr i'r ymgynghoriad a sut byddent yn cael eu cofnodi. Rhoddodd yr Ymgeisydd sicrwydd i'r Arolygiaeth ei fod wedi egluro y gellir gwneud sylwadau ar y prosiect unrhyw bryd. Ni

chyflwynwyd unrhyw ymatebion ers dyddiad cau'r ymgynghoriad blaenorol. Bydd unrhyw beth a gyflwynir yn ychwanegol yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad ymgynghori terfynol.

## Dewis safle

Rhoddodd yr Ymgeisydd wybod i'r Arolygiaeth am nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd â rhanddeiliaid allweddol, ynglŷn â llunio rhestr fer o opsiynau safle a ffefrir. Mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol ac yn ddefnyddiol; mae hyn wedi cael ei fwydo'n ôl i ddewis yr opsiynau terfynol ar gyfer y safle, sydd wedi'u dewis bellach. Mae'r lanfa i'r dwyrain o'r Rhyl, a bydd coridor y cebl ar y tir yn teithio i gyfeiriad de-orllewinol i safle is-orsaf ym Modelwyddan. Bydd yr Ymgeisydd yn cadw hyblygrwydd ar gyfer rhai rhannau o'r coridor trawsyrru, a fydd yn cael eu mireinio yn dilyn gwaith arolygu ac ymgynghori pellach.

Trafododd yr Ymgeisydd faterion yn ymwneud â'r tir, gan gynnwys elfennau ar y tir ac ar y môr. Bydd asesiadau technegol ac amgylcheddol yn parhau ynglŷn â'r cebl a'r is-orsaf ar y tir. Trafododd yr Ymgeisydd ei ymagwedd hyblyg at y PEIR. Mae coridor cebl 100m ar y tir yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ymgynghoriad statudol gyda choridor 40m a ffefrir, i ganiatáu ar gyfer addasiadau at ddiben y Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) i ymateb i'r ymgynghoriad. Gallai'r coridor 40m gael ei ledu mewn rhai lleoliadau i ymateb i gyfyngiadau tebygol.

Holodd yr Arolygiaeth ynglŷn ag elfennau adeiladu'r cynnig. Esboniodd yr Ymgeisydd sut y bydd technegau di-ffos yn cael eu defnyddio ar gyfer y ceblau ar y tir, gan gynnwys Drilio Cyfeiriadol Llorweddol (HDD). Bydd yr Ymgeisydd yn ceisio cynnal hyblygrwydd yn y DCO Drafft ynglŷn â defnyddio HDD a thechnegau di-ffos eraill, os bydd angen. Holodd yr Arolygiaeth ynglŷn â'r pellter bras o'r lanfa i'r is-orsaf, ac i ba raddau y gallai'r Ymgeisydd fod yn ceisio pwerau Caffael Gorfodol (CA). Esboniodd yr Ymgeisydd fod y pellter o'r lanfa i'r is-orsaf oddeutu 11km, ac y bydd pwerau CA yn cael eu ceisio ar gyfer yr holl waith ar y tir, sy'n rhychwantu'r coridor cyfan.

## Diweddariad ar yr Asesiad o Effeithiau Amgylcheddol (EIA) / Cynllun Tystiolaeth / Arolygon

Rhoddodd yr Ymgeisydd ddiweddariad i'r Arolygiaeth ar gwblhau arolygon. Mae arolygon ar y môr wedi cael eu cwblhau, heblaw am arolwg llywio traffig radar yr haf, ac mae arolygon ar y tir yn parhau. Holodd yr Arolygiaeth i ba raddau y mae'r Ymgeisydd wedi cynnal ymchwil ar famaliaid môr. Esboniodd yr Ymgeisydd fod cymorth gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi caniatáu digon o ddata empirig sy'n benodol i'r safle am y rhywogaethau hyn.

Rhoddodd yr Ymgeisydd ddiweddariad i'r Arolygiaeth ar gynnydd cadarnhaol ymhlith amryw Grwpiau Pwnc Arbenigol (ETG), ynglŷn â'r Asesiad o Effeithiau Amgylcheddol (EIA). Mae ymgyngoreion statudol a phartïon eraill â buddiant yn ymwneud â phob un o'r ETGs hyn, sy'n ymdrin â phynciau fel ecoleg ar y tir ac ar y môr, trafnidiaeth ac economeg gymdeithasol. Mae'r Ymgeisydd yn ystyried 59 o olygfannau arfaethedig ar gyfer yr Asesiad o'r Effaith ar y Morlun, y Dirwedd a'r Olygfa (SLVIA), gan nodi bod adborth wedi cael ei dderbyn a bydd y tîm yn casglu data sylfaenol yn ystod yr wythnosau nesaf. Holodd yr Arolygiaeth i ba raddau yr oedd yr Ymgeisydd wedi cytuno ar y lleoliadau hyn gyda'r Awdurdodau Lleol. Dywedodd yr Ymgeisydd ei fod wedi cael adborth cadarnhaol gan yr Awdurdodau Lleol a CNC. Nodwyd ymhellach y bydd newid

posibl i'r ffin llinell goch, ar ymyl gorllewinol ardal yr aráe, yn cael ei gyhoeddi'n fuan i leihau'r effeithiau.

Mae'r Ymgeisydd wedi ystyried effeithiau trawsffiniol a chyflwynwyd copi o adroddiad drafft i'r Arolygiaeth cyn y cyfarfod. Nododd yr Ymgeisydd ei fod wedi darparu adroddiad sgrinio trawsffiniol 'cysgodol', i helpu i lywio'r broses o ystyried effeithiau trawsffiniol. Dywedodd yr Arolygiaeth ei bod wedi cwblhau a chymeradwyo ei hadroddiad sgrinio trawsffiniol, y diwrnod cyn cyflwyniad yr Ymgeisydd.
Bydd yr Arolygiaeth yn adolygu, ailgyfieithu ac ailgyhoeddi ei hadroddiad sgrinio trawsffiniol yn ystod yr wythnosau i ddod, a bydd yn cyhoeddi adroddiad 'cysgodol' yr Ymgeisydd, maes o law.

## Rhaglen ar gyfer cyflwyno'r ceisiadau DCO / Trwydded Forol (ML) a'r Archwiliad o'r DCO

Amlinellodd yr Ymgeisydd y llinell amser ddangosol ar gyfer y Prosiect. Disgwylir ymgynghoriad statudol a chyhoeddi'r PEIR ym mis Awst 2021, a dyna'r cam nesaf yn y llinell amser. Disgwylir i'r ceisiadau DCO ac ML gael eu cyflwyno i'r Arolygiaeth a CNC ym mis Mawrth 2022. Gofynnodd yr Arolygiaeth i'r Ymgeisydd p'un a oedd yn fodlon i'r dyddiad cyflwyno gael ei newid ar dudalen prosiect yr Arolygiaeth o Chwarter 2 2022, fel y dangosir ar hyn o bryd, i Chwarter 1 2022. Dywedodd yr Ymgeisydd y byddai'n cadarnhau ar ôl y cyfarfod (wedi'i gadarnhau ers hynny).

Ceisiodd yr Ymgeisydd eglurhad ynglŷn ag adolygu dogfennau gan yr Arolygiaeth cyn eu cyflwyno, gan ofyn p'un a yw'n iawn tybio y bydd y broses yn cymryd 4-6 wythnos. Dywedodd yr Arolygiaeth wrth yr Ymgeisydd, o ystyried bod amser ac adnoddau'n brin, i amlygu pwyntiau penodol y mae angen craffu arnynt yn fanylach o safbwynt cyfreithiol.

Cydnabu'r Ymgeisydd yr amseru tynn cyn cyflwyno'r cais, a holodd a yw COVID yn effeithio ar argaeledd Arolygwyr Archwilio. Cadarnhaodd yr Arolygiaeth na allai roi syniad o nifer debygol yr Arolygwyr a fydd yn cael eu penodi i'r Awdurdod Archwilio. Rhoddwyd mwy o gyngor ar ddigwyddiadau yn y dyfodol, gan nodi y dylai'r Ymgeisydd dybio bod rhannau o'r Archwiliad yn debygol o fod yn rhithwir. Felly, byddai'n ddefnyddiol rhoi ystyriaeth gynnar i wasanaethau sain a gweledol. Gofynnodd yr Ymgeisydd i'r Arolygiaeth roi enghraifft o gytundeb lefel gwasanaeth, rhwng yr Arolygiaeth a chwmnïau clyweledol. Cytunodd yr Arolygiaeth i anfon y wybodaeth hon, a chynghorodd yr Ymgeisydd ymhellach i sicrhau ei fod yn sicrhau cwmni cyfieithu'n gynnar. Anogir ymgysylltu'n gynnar cyn y Cyfarfod Rhagarweiniol a gwrandawiadau dilynol, oherwydd bydd angen gwasanaeth cyfieithu p'un a gynhelir y digwyddiadau'n rhithwir neu wyneb yn wyneb.

Gofynnodd yr Arolygiaeth i'r Ymgeisydd sicrhau bod yr Arolygiaeth yn cael gwybod am y dyddiad cyflwyno ac unrhyw newidiadau iddo; bydd cyfathrebu rheolaidd yn ddefnyddiol iawn. Bydd hyn yn galluogi'r Arolygiaeth i sicrhau bod adnoddau priodol ar gael.

## Alinio'r broses DCO / Trwyddedu Morol

Cyfeiriodd yr Ymgeisydd at gyhoeddi Adroddiad Argymhellion gorsaf bŵer niwclear Wylfa Newydd yn ddiweddar, gan nodi sut oedd yr Awdurdod Archwilio wedi ymdrin â materion trwyddedu morol. O ran alinio, mae'r Ymgeisydd yn bwriadu paratoi Trwydded Forol ddrafft i'w chyflwyno yn rhan o'r cais DCO. Bydd y cais ffurfiol am Drwydded Forol yn cael ei anfon at CNC yr un pryd ag yr anfonir y cais DCO at yr Arolygiaeth. Felly, dylai'r

ceisiadau hyn gydredeg.

Cadarnhaodd yr Arolygiaeth na allai ymwneud ag ystyriaeth CNC o'r cais am Drwydded Forol. Fodd bynnag, gallai'r Awdurdod Archwilio geisio diweddariadau ar gynnydd y cais drwy gydol yr Archwiliad.

### Y camau nesaf ac unrhyw fater arall

Holodd yr Arolygiaeth a oedd yr Ymgeisydd wedi ystyried lleoliadau posibl ar gyfer y Cyfarfod Rhagarweiniol a gwrandawiadau dilynol. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd nad oedd wedi gwneud hynny. Fodd bynnag, mae'r Ymgeisydd wedi defnyddio canolfan gynadledda Venue Cymru yn Llandudno yn flaenorol, a allai fod yn bosibilrwydd.

Cydnabu'r Ymgeisydd ddefnyddioldeb cyfarfodydd Cyn-ymgeisio, a gofynnodd i'r un nesaf gael ei gynnal ar ôl i'r cyfnod ymgynghori statudol ddod i ben. Cytunodd yr Arolygiaeth ac awgrymodd fod cyfarfodydd yn cael eu cynnal ychydig yn fwy rheolaidd wrth nesáu at yr adeg cyflwyno, er mwyn helpu i ddyrannu adnoddau.

### *Penderfyniadau penodol/ gwaith dilynol sy'n ofynnol?*

Cytunwyd ar y camau gweithredu canlynol:

- Bydd yr Arolygiaeth yn adolygu ac ailgyhoeddi'r adroddiad sgrinio trawsffiniol;
- Bydd yr Ymgeisydd yn cadarnhau p'un a oes angen newid y dyddiad cyflwyno ar wefan yr Arolygiaeth (wedi'i gadarnhau ers hynny);
- Bydd yr Arolygiaeth yn anfon cytundeb lefel gwasanaeth clyweledol at yr Ymgeisydd.

The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

# Meeting note

| | |
|---|---|
| **Project name** | Awel y Môr |
| **File reference** | EN010112 |
| **Status** | **Final** |
| **Author** | The Planning Inspectorate |
| **Date** | 11 March 2021 |
| **Meeting with** | Awel y Môr Offshore Wind Farm Limited |
| **Venue** | Microsoft Teams |
| **Meeting objectives** | Project update meeting |
| **Circulation** | All attendees |

## Summary of key points discussed and advice given

The Planning Inspectorate (the Inspectorate) advised that a note of the meeting would be taken and published on its website in accordance with section 51 of the Planning Act 2008 (the PA2008). Any advice given under section 51 would not constitute legal advice upon which applicants (or others) could rely.

The Applicant outlined the agenda and the topics of discussion for the meeting.

## Consultation

The Applicant informed the Inspectorate on how non-statutory public engagement was undertaken from 3 November 2020 to 13 December 2020. The Applicant shared event outcomes with the Inspectorate, demonstrating significant support for the project, particularly the green energy benefits.

The Applicant informed the Inspectorate that the project is currently in a design freeze, and of its intention to carry out statutory consultation and publication of the Preliminary Environmental Information Report (PEIR). The Applicant confirmed it is finalising the drafting of the Statement of Community Consultation (SoCC) prior to engagement with the relevant local authorities. Statutory consultation will begin end of August 2021, following the publishing of the PEIR.

The Inspectorate queried whether the Applicant had a strategy for gathering material and planning for potential physical elements to the consultation. The Applicant assured that these measures have been considered and a plan is in place, should COVID restrictions ease.

The Applicant confirmed it will be running virtual consultation events, enabling hard-to-reach groups to participate during consultation phases. The Applicant believes face-to-face events should be supplementary and that deposit locations are being considered.

The Inspectorate queried whether the Applicant anticipates late consultation responses and how they were going to be recorded. The Applicant assured the Inspectorate that it has made it clear that comments on the project can be made at any time. No responses have been submitted since the deadline of previous consultation. Anything that is submitted as extra will be included in the final consultation report.

## Site selection

The Applicant informed the Inspectorate on the number of meetings held with key stakeholders, regarding shortlisting preferred site options. Feedback has been positive and useful; this has been fed back into the selection of the final options for the site which have now been chosen. Landfall is to the east of Rhyl, and the onshore cable corridor travels in a south westerly direction to a substation site in Bodelwyddan. The Applicant will be retaining flexibility for some parts of the transmission corridor which will be refined following further survey work and consultation.

The Applicant discussed land matters, including onshore and offshore elements. Technical and environmental assessments are to be continued regarding the onshore cable and substation. The Applicant discussed its flexible approach to the PEIR. A 100m onshore cable corridor is being used for statutory consultation with a 40m preferred corridor, to allow for adjustments for the purpose of the DCO in response to consultation. The 40m corridor may be widened in some locations in response to likely constraints.

The Inspectorate enquired on the construction elements of the proposal.
The Applicant explained how trenchless techniques will be used for the onshore cables, including Horizontal Directional Drilling (HDD). The Applicant will seek to maintain flexibility in the Draft DCO regarding the utilisation of HDD and other trenchless techniques if required. The Inspectorate enquired on the approximate length from landfall to substation and to what extent the Applicant might be seeking Compulsory Acquisition (CA) powers. The Applicant explained the length from landfall to substation is around 11km, and CA powers will be sought to cover all onshore works, covering the entire corridor.

## EIA / Evidence Plan / Surveys Update

The Applicant updated the Inspectorate on survey completion. Offshore surveys have been completed, with the exception of the summer radar traffic navigation survey, and onshore surveys are ongoing. The Inspectorate queried to what extent the Applicant has conducted research on marine mammals. The Applicant explained how support from Natural Resources Wales (NRW) has allowed for sufficient site-specific empirical data on these species.

The Applicant updated the Inspectorate with positive progress among various Expert Topic Groups (ETG), regarding the Environmental Impact Assessment (EIA). Statutory consultees and other interested parties are involved in each of these ETGs, covering topics such as onshore & offshore ecology, transport and socioeconomics. The Applicant

is considering 59 proposed viewpoints for the Seascape, Landscape and Visual Impact Assessment (SLVIA) noting feedback has been received and the team will be collecting baseline data over the next weeks. The Inspectorate queried to what extent the Applicant had agreed these locations with the Local Authorities. The Applicant advised that it had received positive feedback from the Local Authorities and NRW. It was further noted that a possible redline boundary change, on the western edge of the array area, to reduce impacts, will be announced shortly.

The Applicant has considered transboundary effects and a copy of a draft report was submitted to the Inspectorate prior to the meeting. The Applicant noted it had provided a 'shadow' transboundary screening, to help inform consideration of transboundary effects. The Inspectorate advised it had completed and signed off its transboundary screening, the day previous to the Applicant's submission.
The Inspectorate will review, re-translate and re-issue its transboundary screening in coming weeks, and will publish the Applicant's 'shadow' report in due course.

## Programme to DCO/ML submission & DCO Examination

The Applicant outlined the indicative timeline for the Project. Statutory consultation and publication of the PEIR is due in August 2021 and is the next step in the timeline. It is anticipated that the DCO and ML applications will be submitted to the Inspectorate and NRW in March 2022. The Inspectorate asked the Applicant whether it was happy for the submission date to be changed on the Inspectorate's project page from Q2 2022 as currently indicated, to Q1 2022. The Applicant said it would confirm after the meeting (since confirmed).

The Applicant sought clarity on pre-submission document reviews by the Inspectorate, asking whether the assumption of a 4-6-week process is correct. The Inspectorate advised the Applicant, considering limited time and resources, to highlight specific points where more detailed legal scrutiny is required.

The Applicant acknowledged tight pre-application timing, querying whether COVID is having an impact on the availability of Examining Inspectors. The Inspectorate confirmed that it was unable to provide an indication as to the likely number of Inspectors that will appointed to the Examining Authority. Further advice was given on events going forward, noting that the Applicant should assume parts of the Examination are likely to be virtual. Therefore, early consideration of audio and visual services would be helpful. The Applicant requested that the Inspectorate provide an example service level agreement, between the Inspectorate and audio-visual companies. The Inspectorate agreed to send this information, further advising the Applicant to ensure it secures a translation company early. Early engagement is encouraged before the Preliminary Meeting and subsequent hearings, as a translation service will be required whether the events are held virtually or face-to-face.

The Inspectorate asked the Applicant to ensure that the Inspectorate is kept informed about the submission date and any changes to it; regular communication will be very helpful. This will enable the Inspectorate to ensure that appropriate resource is available.

## DCO / Marine Licensing, process alignment

The Applicant referred to the recent publication of the Wylfa Newydd Nuclear power station Recommendation Report, noting how the Examining Authority handled marine licensing matters. In terms of alignment, the Applicant intends to prepare a draft Marine Licence to submit as part of the DCO application. The formal Marine Licence application will be sent to NRW at the same time as the DCO application is sent to the Inspectorate. These applications should therefore run in parallel.

The Inspectorate confirmed that it could not engage in NRW's consideration of the Marine Licence application. However, the Examining Authority could seek updates on the progress of the application throughout the Examination.

**Next steps & AOB**

The Inspectorate queried whether the Applicant has looked at potential venues for the Preliminary Meeting and subsequent hearings. The Applicant confirmed that it has not. However, the Applicant has previously used the Venue Cymru conference centre in Llandudno which could be a possibility.

The Applicant acknowledged the usefulness of Pre-application meetings, requesting the next be held after the statutory consultation period has ended. The Inspectorate agreed and suggested slightly more regular meetings in build up to submission, to assist resource allocation.

## *Specific decisions/ follow-up required?*

The following actions were agreed:

- The Inspectorate to review and reissue transboundary screening;
- Applicant to confirm whether the submission date on the Inspectorate's website needs changing (since confirmed);
- The Inspectorate to send audio-visual SLA to the Applicant.